# Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2025

Rhwng 17 a 21 Mawrth byddwn ni'n cynnal cyfres i ddigwyddiadau ac yn rhannu negeseuon ysbrydoledig i ddathlu Wythnos Gwaith Cymdeithasol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 February 2025

Diweddariad olaf: 10 February 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-cymdeithasol/wythnos-gwaith-cymdeithasol am y fersiwn diweddaraf.

Rhwng 17 a 21 Mawrth byddwn ni'n cynnal cyfres i ddigwyddiadau ac yn rhannu negeseuon ysbrydoledig i ddathlu Wythnos Gwaith Cymdeithasol.

## Beth sy'n digwydd yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol?

Yn ystod yr wythnos, byddwn ni'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar-lein am ddim, ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwaith cymdeithasol.

Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar dair thema allweddol:

- cryfhau ein perthynas
- cynnal ein hunaniaeth gwaith cymdeithasol
- cefnogi ein llesiant yn y gwaith.

Ac ar **ddydd Mawrth 18 Mawrth** byddwn ni'n dathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd.

Bydd mynychu'r digwyddiadau yn cyfrif tuag at eich oriau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) os ydych chi wedi cofrestru â ni.

## I bwy mae Wythnos Gwaith Cymdeithasol?

Mae Wythnos Gwaith Cymdeithasol ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio a'r rhai sy'n dymuno dychwelyd i'r proffesiwn
- gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy’n gweithio a’r rhai sydd am ddychwelyd i'r proffesiwn
- myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac addysgwyr
- pobl sydd â phrofiad o waith cymdeithasol
- cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol
- gweithlu gofal cymdeithasol ehangach
- swyddogion llywodraeth a pholisi
- gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliadau partner.

## Ein digwyddiadau

17 Mawrth 2025, 10am i 11.30am

## Gwerthoedd cyson a rolau newidiol - hunaniaeth gwaith cymdeithasol dros amser

**Ar-lein**

Ymunwch â ni am drafodaeth gyda gweithwyr cymdeithasol sydd ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd i:

- archwilio beth mae hunaniaeth gwaith cymdeithasol yn ei olygu i ni a beth sy'n siapio hyn
- ystyried a yw hunaniaeth gwaith cymdeithasol yn newid dros amser ac mewn cyd-destunau gwahanol
- drafod pam mae hunaniaeth gwaith cymdeithasol yn bwysig.

**Siaradwyr**

- Nia Edy, Gofal Cymdeithasol Cymru

- Cerian Twinberrow, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Marian Parry Hughes, Cyngor Gwynedd
- Esther Chapman, Cyngor Sir Gâr
- Samantha Stroud, Cyngor Caerdydd
- Heather Fitzpatrick, Cyngor Castell-nedd Port Talbot

**Archebu eich lle**

17 Mawrth 2025, 1pm i 2.30pm

## “Do you get me?”

**Ar-lein**

Ymunwch â Gwenan Prysor, Cyfarwyddwr y rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor ac Esyllt Crozier, rheolwr gwella a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gwaith cymdeithasol wrth iddyn nhw arwain sesiwn am y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Byddant yn trafod pa mor gymhleth gall iaith fod.

Byddant yn edrych ar sut rydyn ni’n defnyddio iaith yn wahanol, yn dibynnu ar ein sefyllfa, y lleoliad a gyda phwy rydyn ni’n siarad. Byddant hefyd yn archwilio sut y gall dwyieithrwydd a dewis iaith ychwanegu dimensiwn arall at gyfathrebu.

**Siaradwyr**

- Esyllt Crozier, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwenan Prysor, Prifysgol Bangor

**Archebu eich lle**

18 Mawrth 2025, 10am i 12pm

# Deallusrwydd Artiffisial (AI) a gwaith cymdeithasol - cydbwyso arloesedd ac uniondeb

**Ar-lein**

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) mewn gwaith cymdeithasol.

**Bydd hyn yn cynnwys:**

- **integreiddio AI mewn gwaith cymdeithasol**: sut y gellir defnyddio technolegau AI o fewn gwaith cymdeithasol a'u manteision posib
- **ystyriaethau moesegol**: yr heriau moesegol sy'n gysylltiedig ag AI mewn gwaith cymdeithasol, gan gynnwys materion preifatrwydd, cydsyniad, a rhagfarn
- **yr effaith ar berthnasoedd**: sut mae AI yn dylanwadu ar y ddeinameg rhwng gweithwyr cymdeithasol a chleientiaid, a strategaethau i gynnal ymddiriedaeth ac empathi
- **arferion gorau**: arferion gorau ar gyfer integreiddio moesegol AI mewn gwaith cymdeithasol, gan sicrhau bod technoleg yn gwella'r proffesiwn
- **y canllawiau diweddaraf**: y canllawiau a'r argymhellion diweddaraf ar gyfer defnyddio AI mewn gwaith cymdeithasol, i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r arferion cyfredol.

**Siaradwyr**

- Aimee Twinberrow, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Yr Athro Donald Forrester, Prifysgol Caerdydd
- Stuart Allen, Prifysgol Caerdydd

- Glenda George, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru
- Nicki Harrison, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru

**Archebu eich lle**

18 Mawrth 2025, 1.30pm i 4pm

## Perthnasau a ffiniau proffesiynol

**Ar-lein**

Ymunwch â'r sesiwn hon i:

- **ystyried dulliau amgen o ymdrin â ffiniau proffesiynol**: byddwn ni’n siarad am ffiniau a pherthnasoedd, gan fyfyrio ar sut y gall dulliau newydd o ymarfer wella empathi a chydweithio.
- **archwilio arferion sy'n seiliedig ar berthynas**: sut gallwn ni ddatblygu perthnasoedd proffesiynol dilys a diogel?
- **myfyrio ar newid systemig**: byddwn ni’n trafod ffyrdd o hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar berthynas fel egwyddor graidd yn ein sefydliadau.

**Siaradwyr**

- Jay Goulding, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Danica Darley, Prifysgol Sheffield
- Peter Blundell, Prifysgol John Moores Lerpwl
- Nick Andrews, Prifysgol Abertawe

**Archebu eich lle**

20 Mawrth 2025, 9.30am i 12.30pm

## Anaf moesol mewn gwaith cymdeithasol: beth, sut, a pham mae'n bwysig

**Ar-lein**

Ymunwch â Siobhan Maclean a Thomas Kitchen i drafod anaf moesol mewn gwaith cymdeithasol.

Yn y sesiwn hon, byddwn ni'n:

- diffinio anaf moesol a chysylltu hyn â chyd-destun gwaith cymdeithasol
- archwilio sut mae ein hunaniaeth a'n gwerthoedd yn ymwneud â'n credoau a'n hymddygiadau
- trafod pwysigrwydd caredigrwydd a thosturi proffesiynol yn y gweithle.

**Siaradwyr**

- Siobhan Maclean, gweithiwr cymdeithasol annibynnol ac addysgwr ymarfer
- Dr Thomas Kitchen, anesthetydd ymgynghorol ac uwch ddarlithydd clinigol

**Archebu eich lle**

20 Mawrth 2025, 1pm i 2pm

## "Sut rydyn ni'n defnyddio data i gyfrannu at y proffesiwn gwaith cymdeithasol a sut mae'n cael ei reoleiddio?"

**Ar-lein**

**Mae'r sesiwn hon yn cael ei chynnal gan Social Work England.**

Ymunwch ag arweinwyr pedwar rheolydd gwaith cymdeithasol y Deyrnas Unedig wrth iddyn nhw drafod eu profiadau cyffredin o reoleiddio gwaith cymdeithasol. Mae'r sesiwn yn edrych ar y rôl y mae rheoleiddio yn ei chwarae wrth gasglu, dadansoddi a rhannu data i greu newid cadarnhaol i'r proffesiwn gwaith cymdeithasol.

**Cyflwynwyr:**

- Colum Conway, Prif Weithredwr, Social Work England
- Declan McAllister, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon
- Maree Allison, Prif Weithredwr, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban
- Sarah McCarty, Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru

**Archebu eich lle**

21 Mawrth 2025, 10am i 12pm

## Hunaniaeth niwroamrywiol mewn gwaith cymdeithasol

**Ar-lein**

Gan ddefnyddio eu profiad byw eu hunain fel gweithwyr cymdeithasol niwroddargyfeiriol, bydd Florence a Fiona yn archwilio hunaniaeth niwroamrywiol a'r mudiad niwroamrywiol.

Ymunwch â'r sesiwn hon i:

- archwilio gwahanol niwroteipiau – ac yn bwysig, sut y gallant orgyffwrdd
- ystyried rhai o'r cryfderau a'r heriau y gellid dod ar eu traws a beth mae hyn yn ei olygu i hunaniaeth gweithwyr cymdeithasol y tu mewn a'r tu allan i waith cymdeithasol

- feddwl am niwrowahaniaethu, croestoriadedd a gwahaniaethu dwbl
- ddarganfod sut y gall gweithredu gweithredol gael effaith ar ymarfer gwaith cymdeithasol
- ystyried pam mae pobl yn 'masgio' a sut mae hyn yn effeithio ar lesiant, cefnogaeth a hunaneiriolaeth
- ddysgu am fodel goruchwylio a gyd-gynhyrchwyd gyda myfyrwyr gwaith cymdeithasol niwroamrywiol, er mwyn helpu i hwyluso sgyrsiau ynghylch anghenion a chymorth.

**Siaradwyr**

- Florence Smith, addysgwr gweithwyr cymdeithasol ac ymarfer, a chyfarwyddwr Neuro Inclusive Solutions Ltd
- Fiona McDonald, ymgynghorydd lles annibynnol yn y gweithle ac addysgwr ymarfer

**Archebu eich lle**

**Y safbwyntiau a fynegir yn y gweithdai hyn yw barn y siaradwyr ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn y sefydliadau y maent yn eu cynrychioli, na barn Gofal Cymdeithasol Cymru.**

## Archebwch eich lle